monmouthshire
sir fynwy

Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir, Y Rhadyr,
Brynbuga, Sir Fynwy
NP15 1GA
Monmouthshire County Council
County Hall, Y Rhadyr, Usk,
Monmouthshire
NP15 1GA

Ffôn/Tel: 01633 644 644
Gwefan/Web:
https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/
Ein Cyf/Our ref:
Eich Cyf/Your ref:

# DERBYN I YSGOLION UWCHRADD – GWYBODAETH MEDI 2027 I RIENI

Gofynnir i chi ddarllen y nodiadau hyn yn ofalus cyn cwblhau eich ffurflen gais.

Argymhellwn yn gryf eich bod yn darllen Llyfryn Dechrau Ysgol 2027/28 gan fod hyn yn cynnwys gwybodaeth fanylach am y broses ymgeisio. Mae copi o'r llyfryn ar gael oddi wrth www.monmouthshire.gov.uk/cy neu drwy'r post ar gais.

**Pwysig:** Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau cais derbyn ysgol i'ch plentyn ddechrau Ysgol Uwchradd ym mis Medi 2027. **Ni all** eich plentyn fynychu Ysgol Uwchradd heb eich bod wedi dilyn y broses ymgeisio. Gallwch wneud cais ar-lein drwy Borth Dinasyddion Sir Fynwy gan ddilyn y ddolen hon Porth Dinasyddion - Mewngofnodi (monmouthshire.gov.uk). Gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i gwblhau cyn y dyddiad cau **31ain Hydref 2026 am 4pm** er mwyn cynyddu'r posibiliadau i'ch plentyn gael lle yn eich dewis ysgol.

## Faint o ysgolion ddylwn i wneud cais amdanynt?

Gwahoddir rhieni i fynegi hyd at dri dewis (yn nhrefn blaenoriaeth) rhag ofn nad oes lle ar gyfer eich plentyn yn eich dewis ysgol gyntaf.

Anogir rhieni/gwarcheidwaid i gynnwys mwy nag un dewis ar eu cais i'w hystyried. Os bydd eich dewis ysgol yn cael ei gwrthod, bydd methu â rhoi mwy nag un dewis yn golygu y bydd yr awdurdod yn neilltuo lle yn eich ysgol agosaf nesaf sydd ar gael. Os byddwch yn rhoi gwybod i ni am ddewisiadau eraill ar ôl i'r penderfyniad hwn gael ei wneud, efallai bydd yr holl leoedd sydd ar gael yn eich ysgol/ysgolion amgen wedi'u cymryd.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu cynllun dewis cyfartal. Mae hyn yn golygu y bydd pob un o'ch dewisiadau yn cael eu hystyried yn gyfartal a'u blaenoriaethu ar sail meini prawf gordanysgrifio'r Awdurdod. Os oes mwy nag un o'ch dewisiadau ar gael, byddwn yn cynnig y dewis gorau o'r rheiny i chi.
Cynhwyswch unrhyw ddewisiadau ar gyfer ysgol wirfoddol a gynorthwyir / annibynnol. (Bydd gofyn i chi hefyd wneud cais yn uniongyrchol i ysgol wirfoddol a gynorthwyir / annibynnol)

## Pwy ddylai wneud y cais?

Rhaid i geisiadau ar gyfer derbyn i Ysgol gael eu cwblhau gan y person sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

**Pwysig: Rhaid i bob parti sy'n dal cyfrifoldeb rhiant gytuno i'r cais sy'n cael ei gyflwyno. Os bydd unrhyw anghydfod rhwng y rhai sy'n dal cyfrifoldeb rhiant mewn perthynas â'r cais, ni fydd yr Awdurdod Lleol yn gallu bwrw ymlaen â'r cais nes bod yr anghydfod wedi'i ddatrys.**

**Beth os ydw i am wneud cais am Ysgol sydd y tu allan i Sir Fynwy?**

Os ydych yn byw yn Sir Fynwy, rhaid i chi barhau i wneud cais i Gyngor Sir Fynwy, hyd yn oed os yw'ch dewis ysgol yn un nad yw o fewn Sir Fynwy. Yna byddwn yn cysylltu â'r Awdurdod Lleol perthnasol ar eich rhan.

**Pwysig:** Yr unig eithriad i'r uchod yw os ydych yn gwneud cais am ysgol sydd o fewn Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Rhaid gwneud ceisiadau am Ysgolion o fewn Cyngor Dinas Casnewydd yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Casnewydd a rhaid gwneud ceisiadau am Ysgolion o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn uniongyrchol atynt erbyn eu dyddiad cau cyhoeddedig, er mwyn cael eich ystyried. ***Rydym yn eich cynghori'n gryf i gwblhau a dychwelyd cais Sir Fynwy i'n hysbysu o'ch dewis ar gyfer Ysgolion Casnewydd neu Dorfaen, a chynnwys unrhyw Ysgolion eraill (yn nhrefn eich dewis) yr hoffech i ni eu hystyried.***

Os ydych yn dymuno gwneud cais am le mewn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir neu Ysgol Annibynnol, rhaid i chi hefyd wneud cais yn uniongyrchol i'r Ysgolion hyn.

**Manylion cyfeiriad - beth os byddaf yn symud?**

Gofynnir i chi sicrhau mai'r cyfeiriad a nodir ar eich ffurflen gais yw cyfeiriad cartref parhaol eich plentyn. Dyma'r cyfeiriad y bydd yr Awdurdod Lleol yn ei ddefnyddio i benderfynu ar gais eich plentyn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal gwiriadau preswyliad trwyadl er mwyn dilysu manylion y cyfeiriad a nodwyd.

Bydd yn ofynnol i Rieni/Gofalwyr sydd wrthi'n symud eiddo hysbysu'r Awdurdod Lleol **ar adeg gwneud y cais** o ran y symud arfaethedig a chyflwyno tystiolaeth i ddilysu eu cyfeiriad newydd, er mwyn i'r cyfeiriad hwn gael ei ystyried. Tystiolaeth addas fyddai copi o gyfnewid contractau (ar gyfer pryniannau) neu gytundeb tenantiaeth tymor hir (ar gyfer trefniadau rhentu). **Rhaid** cyflwyno'r cais a hysbysu ynghylch newid cyfeiriad arfaethedig cyn y dyddiad cau cyhoeddedig er mwyn cael ei ystyried fel cais mewn pryd. Os methir â hysbysu'r Awdurdod Lleol am symud arfaethedig i gyfeiriad newydd cyn y dyddiad cau cyhoeddedig, bydd y cais yn cael ei bennu fel un hwyr.

**Pwysig**

Bydd angen i rieni/gofalwyr sydd wrthi'n symud, ond nad ydynt yn gallu dilysu'r symudiad cyn y dyddiad cau cyhoeddedig, sicrhau bod eu cais wedi'i gwblhau yn cael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau cyhoeddedig, a bod y cais yn darparu gwybodaeth am y bwriad i symud. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â rhieni/gofalwyr ynglŷn â'r symud arfaethedig er mwyn cael cadarnhad bod preswyliad yn yr eiddo newydd wedi'i sicrhau. Fodd bynnag, bydd angen i rieni roi tystiolaeth i'r awdurdod lleol sy'n sicrhau eu bod yn newid cyfeiriad **nid yn hwyrach na 6 wythnos cyn** y dyddiad cynnig cyhoeddedig er mwyn i'r cyfeiriad newydd gael ei ystyried at ddibenion dyrannu. Y dyddiad diweddaraf y gellir cyflwyno'r dystiolaeth hon i'r awdurdod lleol i'w hystyried yw **18eg Ionawr 2027**.

***Cymerwch ychydig o amser i astudio'r Llyfryn Dechrau'r Ysgol 2027/28 am wybodaeth fanylach am y broses os ydych yn ystyried symud cyfeiriad.***

**Beth mae'n ei olygu os caiff fy nghais ei benderfynu fel un hwyr?**

Caiff unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau, neu geisiadau sy'n parhau'n anghyflawn ar y dyddiad cau, eu trin dan y trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr.

Bydd ceisiadau lle bu newid mewn amgylchiadau, sydd ag effaith ar statws y cais o fewn y meini prawf gorlawn, yn golygu y caiff y cais ei drin fel un hwyr os deuir â'r newidiadau hyn i sylw'r Awdurdod ar ôl y dyddiad cau.

Dylid nodi y gall ceisiadau y penderfynir eu bod yn rhai hwyr gynyddu'r posibilrwydd na fyddwch yn sicrhau lle yn eich Ysgol/Ysgolion dewisol. Mae hyn oherwydd y bydd pob cais a gyflwynir gyda'r dystiolaeth angenrheidiol cyn y dyddiad cau yn derbyn blaenoriaeth dros y rhai a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau.

**Sut y caiff fy nghais ei benderfynu?**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio gydag Ysgolion a rhieni i gydymffurfio â'ch dewisiadau, lle bynnag mae hynny'n bosibl.  Fodd bynnag, mae achlysuron lle na allwn ddarparu ar gyfer dymuniadau rhiant.

Cewch eich cynghori'n gryf i gynnwys mwy nag un dewis ar eich ffurflen gais, y gallwn wedyn ei ystyried pe byddech yn aflwyddiannus yn eich cais am eich dewis ysgol gyntaf. Caiff eich dewisiadau eu hystyried yn gyfartal yn unol â meini prawf gordanysgrifio'r Awdurdod Lleol a chynigir eich dewis ysgol gyntaf i chi os gellir darparu ar gyfer mwy na un dewis - ni fyddwch dan anfantais mewn unrhyw ffordd drwy gynnwys mwy nag un dewis ar eich cais, ond gallech fod dan anfantais os na wnewch hynny.

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn mwy o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael yn y dewis ysgol gyntaf, gweithredir y meini prawf isod er mwyn dewis yr ymgeiswyr llwyddiannus:

Plant sy'n derbyn Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig / Cynllun Datblygu Unigol (gofyniad statudol ar gyfer eu derbyn)
1. Bydd plant sy'n derbyn gofal neu blant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol h.y. plant sydd dan ofal neu sydd wedi bod o dan ofal yr Awdurdod Lleol yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 2-8 isod.
2. Rhoddir blaenoriaeth i blant ag amgylchiadau meddygol eithriadol dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 3-8 isod
3. Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw yn nalgylch y dewis ysgol sydd â brodyr a chwiorydd perthnasol dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 4-8 isod
4. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch y dewis ysgol, ond sydd â brodyr a chwiorydd perthnasol a fydd yn parhau i fod yn bresennol yn y dewis ysgol oherwydd eu bod yn aflwyddiannus yn eu cais am le yn yr ysgol ddalgylch, yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwyntiau 5-8 isod
5. Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw y tu mewn i ddalgylch y dewis ysgol dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 6-8 isod
6. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch y dewis ysgol, gyda brawd neu chwaer perthnasol (a fydd yn bresennol yn y dewis ysgol ar adeg derbyn) nad yw'n bodloni'r meini prawf pwyntiau 3 a 4 uchod, yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 7-8 isod
7. Rhoddir blaenoriaeth i blant sydd ar y gofrestr mewn ysgol gynradd sydd wedi eu dynodi i fod yn ysgol fwydo ar gyfer y dewis ysgol uwchradd dros y rhai sy'n bodloni pwynt 8 isod
8. Ar ôl cymhwyso'r categorïau uchod, neu os yw'r ysgol yn parhau i fod mewn sefyllfa o ordanysgrifio yn unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd y flaenoriaeth yn seiliedig ar agosrwydd i'r dewis ysgol, wedi'i fesur gan ddefnyddio'r llwybr cerdded diogel byrraf.

Cymerwch ychydig o amser i astudio Llyfryn Dechrau'r Ysgol 2027/28 am wybodaeth fanylach ar feini prawf gordanysgrifio'r Awdurdod Lleol.

**<u>Mae gan fy mhlentyn gyflwr meddygol – a fyddant yn cael blaenoriaeth am le ysgol?</u>**

Bydd angen i rieni sy'n dymuno i amgylchiadau meddygol eu plentyn gael eu hystyried ar gyfer blaenoriaeth lleoliad Ysgol, yn unol â phwynt 2 o feini prawf gordanysgrifio'r Awdurdod sydd uchod, gyflwyno tystiolaeth addas ar adeg y cais er mwyn i'r amgylchiadau hyn gael eu hystyried gan yr Awdurdod yn ystod y broses ddyrannu gychwynnol. Gellir cymhwyso tystiolaeth addas fel adroddiad ymgynghorydd meddygol.

Ni fydd yn bosibl i'r Awdurdod ystyried unrhyw amgylchiadau meddygol pe bai'r dystiolaeth ategol yn cael ei derbyn ar ôl 1il Mawrth 2027, pan allai'r holl leoedd sydd ar gael fod wedi'u dyrannu.

**<u>Mae gan fy mhlentyn frawd neu chwaer yn yr ysgol yn barod – a fydd yn cael lle yn awtomatig yn yr ysgol hon?</u>**

Ystyrir brodyr a chwiorydd, boed rhai llawn, hanner, llys neu wedi maethu, yn berthnasol pan fyddant yn byw gyda'i gilydd yn yr un cyfeiriad a phan fydd y plentyn hŷn dal i fod wedi'i gofrestru yn yr ysgol pan fyddai'r un ieuengaf yn gymwys i fynychu.

Ni all yr awdurdod lleol warantu lle yn eich dewis ysgol ar y sail bod ganddynt frawd neu chwaer yn mynychu'r dewis ysgol. Fodd bynnag, mae brodyr a chwiorydd yn rhan o'r meini prawf gordanysgrifio fel y dangosir uchod.

**Byddwch hefyd yn ymwybodol bod sefyllfa brawd neu chwaer sy'n byw y tu allan i'r dalgylch yn is yn y meini prawf gordanysgrifio na sefyllfa brawd neu chwaer sy'n byw yn y dalgylch (gweler pwyntiau 3 a 4 o'r meini prawf gordanysgrifio uchod). Os ydych yn byw y tu allan i'r dalgylch ac yn parhau i gyflwyno cais, byddwch yn ymwybodol y gallai eich plentyn iau fod mewn perygl o beidio â chael lle ysgol yn yr ysgol y tu allan i'r dalgylch, er bod ganddynt frawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol honno.**

**<u>A fydd fy mhlentyn yn cael lle yn fy Ysgol ddalgylch?</u>**

Er bod preswylio o fewn y dalgylch ar gyfer eich dewis ysgol yn elfen o'r meini prawf gordanysgrifio, nid yw'n gwarantu lleoliad ar y sail hon. Mae manylion dalgylchoedd ysgolion ar gael ar https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/

**<u>Cludiant i'r Ysgol</u>**
Mae'r Polisi Cludiant Teithwyr bellach yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru o 2 filltir ar gyfer ysgol gynradd a 3 milltir ar gyfer ysgol uwchradd. Byddwch yn ymwybodol y gallai hyn effeithio ar eich cymhwysedd ar gyfer cludiant cartref i'r ysgol.

**<u>Gwybodaeth Bwysig:</u>**

Mae'n bwysig deall, os ydych yn dymuno gwneud cais am ysgol nad yw yn eich dalgylch ac rydych yn llwyddiannus, os ydych yn dymuno gwneud cais wedyn am frawd neu chwaer arall i fynychu'r un ysgol, mae'r meini prawf ar gyfer brodyr a chwiorydd allan o'r dalgylch yn eistedd yn is yn y meini prawf gordanysgrifio

**Cyfrifoldeb rhieni yw sicrhau bod ceisiadau ar-lein neu ffurflenni dewis yn cael eu derbyn erbyn y dyddiad cau, sef 31ain Hydref 2026 am 4:00pm. Os ydych wedi cwblhau ffurflen bapur, rydym yn argymell yn gryf eich bod yn anfon y ffurflen drwy ddull sy'n rhoi i chi brawf bod y Cyngor wedi'i derbyn, er enghraifft trwy ddanfoniad Post Brenhinol arbennig neu drwy ei chyflwyno â llaw i'n swyddfeydd. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ffurflenni a aiff ar goll yn y post neu a gaiff eu dychwelyd oherwydd nad oes stampiau o werth ariannol digonol arnynt.**